# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 24 Ionawr 2022

Amser: 14.00 - 15.57

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/12587) yn:

http://senedd.tv/cy/12587

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Luke Fletcher AS<br>Joel James AS<br>Buffy Williams AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-06-1226 Dileu'r hyn sy'n rhwystro mynediad i waith cymdeithasol ac annog parch cydradd rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd

Croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddileu'r rhwystrau i gyllid myfyrwyr a chytunwyd i:

- ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i bwysleisio'r angen i hyn gael ei ddatrys yn gyflym a cheisio sicrwydd na fydd y garfan nesaf o fyfyrwyr yn wynebu'r un caledi;
- gofyn sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau cyllid cyfatebol rhwng hyfforddiant iechyd a gwaith cymdeithasol a'r amserlen ar gyfer sefydlu hyn, fel rhan o'r gwaith i sicrhau cydraddoldeb i fyfyrwyr a'r gweithlu iechyd a gwaith cymdeithasol; a
- thynnu sylw Gofal Cymdeithasol Cymru a Cyllid Myfyrwyr Cymru at y pryderon hyn.

Nododd y Cadeirydd na fydd unrhyw newidiadau yn effeithio ar y deisebwyr eu hunain a'i bod yn dymuno rhoi newid ar waith yn y dyfodol.

### 2.2 P-06-1227 Mae angen uned iechyd meddwl arbenigol i famau a babanod yng Ngogledd Cymru

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i rannu eu pryderon ynghylch yr amser gymerir i sefydlu'r gwasanaeth hwn ac i ofyn am eglurhad pellach ynghylch:

- y cynlluniau penodol ar gyfer datblygu Uned Mamau a Babanod ar gyfer gogledd Cymru a ble bydd yn cael ei lleoli;

- yr amserlen a ragwelir ar gyfer y gwaith sydd angen ei wneud i ddatblygu'r Uned Mamau a Babanod a phryd y bydd y ddarpariaeth ar gael;
- sut yr ymgynghorir â menywod a theuluoedd o ogledd Cymru sydd â phrofiad byw, a sut y cânt eu cynnwys yn y datblygiad; a

pha ddarpariaeth Gymraeg fydd yn cael ei darparu o fewn yr uned.

**2.16 P-06-1233 Diddymu Rheoliadau Coronafeirws a dod â holl gyfyngiadau COVID-19 i ben**

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y ffaith y bydd y rhan fwyaf o'r cyfyngiadau wedi'u codi erbyn diwedd mis Ionawr os bydd sefyllfa iechyd y cyhoedd yn parhau i wella yng Nghymru. Felly, gan ei bod yn debygol nad oes angen unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r ddeiseb hon, cytunodd yr Aelodau i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

**2.4 P-06-1236 Dylai menywod gael eu sgrinio'n rheolaidd gyda phrawf gwaed o'r enw CA125 i ganfod canser yr ofari**

Nododd y Pwyllgor hanes deisebau ar y pwnc hwn; canlyniadau'r treial 20 mlynedd; a pharodrwydd y Llywodraeth i newid ei safbwynt os bydd y cyngor meddygol yn newid. Cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb, a diolch i'r deisebydd am godi'r mater pwysig.

Wrth wneud hynny, cytunwyd y byddai'r deisebydd yn cael trawsgrifiad o unrhyw ddadleuon yn y Cyfarfod Llawn, ac adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi ar y mater.

**2.5 P-06-1237 Ystyried defnyddio Graddau a Aseswyd gan Athrawon ar gyfer dysgwyr na allent sefyll arholiadau TGAU ym mis Tachwedd oherwydd prawf COVID positif. Dylid sicrhau bod trefniadau tecach ar waith ar gyfer arholiadau mis Mai.**

Nododd y Pwyllgor yr effaith ar bobl ifanc unigol, a'r anhawster i rieni ac athrawon sy'n ceisio cefnogi pobl ifanc. Fodd bynnag, o ystyried penderfyniad Llywodraeth Cymru a chynlluniau ar gyfer arholiadau yn y dyfodol, nid oes unrhyw gamau pellach y gall y Pwyllgor eu cymryd, felly cytunodd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

### 2.6 P-06-1238 Gwahardd polystyren a phlastigau untro eraill!

Nododd y Pwyllgor ymrwymiad cryf Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth yn y Senedd hon, a'r gefnogaeth drawsbleidiol i hyn gan y Senedd a'r Senedd Ieuenctid. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r deisebydd am godi'r mater a bydd yn cau'r ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-05-949 ARBED YR HEN YSGOL GANOLRADD I FERCHED Y BONT-FAEN RHAG EI DYMCHWEL

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i gadarnhau bod hwn yn fater byw o hyd yr hoffai'r Aelodau iddo gael ei drafod a'r bwriad i ehangu'r ddadl y tu hwnt i'r materion penodol yn y Bont-faen i roi ystyriaeth ehangach i warchod adeiladau o werth.

Cytunodd yr Aelodau hefyd i dynnu sylw'r Pwyllgor Busnes at nifer o geisiadau dadl a allai fod ar ddod.

### 3.2 P-06-1160 Ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau arholiadau lleol yng Nghymru dderbyn myfyrwyr sy'n cael addysg yn y cartref ar gyfer arholiadau cyhoeddus

Nododd y Pwyllgor fod llythyr y Gweinidog yn nodi'r trefniadau ar gyfer arholiadau 2022, y bwriad i feithrin perthynas well â theuluoedd sy'n darparu Addysg Ddewisol yn y Cartref, a'r cyllid sy'n cael ei ddarparu i Awdurdodau Lleol i gefnogi teuluoedd. Yn sgil yr ymateb cadarnhaol gan y Gweinidog, cytunodd yr Aelodau i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

## 3.3 P-06-1197 Gwasanaeth sgrinio'r galon am ddim i bob plentyn rhwng 11 a 35 oed sy'n cynrychioli ei ysgol neu sir mewn chwaraeon

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ddaeth i law gan Lywodraeth Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon a chytunwyd nad oes llawer mwy y gall y Pwyllgor ei wneud i symud y ddeiseb yn ei blaen.  Nid yw'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU yn argymell y sgrinio y gelwir amdano yn y ddeiseb. Cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb, a diolch i'r deisebydd am godi'r mater pwysig hwn.

## 3.4 P-06-1207 Dechreuwch gyfeirio at ddinasoedd a threfi Cymru yn ôl eu henwau Cymraeg

Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y syniad o roi canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar y sail statudol drwy gymryd tystiolaeth uniongyrchol ganddo. Yn y cyfamser, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn pa ystyriaeth a roddwyd i hyn.

## 3.5 P-06-1217 Agor canolfannau / clinigau meddygol un stop Covid Hir

Nododd y Pwyllgor y bydd y Gweinidog yn adolygu'r gwasanaeth yn fuan a chytunodd i:

- ysgrifennu eto at y Gweinidog yn gofyn sut mae'r ddarpariaeth hon yn y dyfodol yn cael ei llunio a'i hannog i gynnwys llais y claf yn y cynllun cyflawni; ac
- amlygu'r ddeiseb i'r grŵp trawsbleidiol ar Covid hir.

## 3.6 P-06-1208 Deddfau newydd i amddiffyn gwiwerod coch prin rhag colli cynefinoedd sy'n achosi dirywiad yn eu poblogaeth

Nododd y Pwyllgor y ddadl gadarnhaol ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru, estynnodd longyfarchiadau i'r deisebydd, a chaeodd y ddeiseb.

Wrth wneud hynny, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru fabwysiadu'r dull o warchod gwiwerod coch ar Ynys Môn yn sgil yr esiampl yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

### 3.7 P-06-1183 Gosod terfyn cyflymder 20 milltir yr awr ar gyfer 100 metr bob ochr i'r groesfan newydd i gerddwyr yng Nglan Conwy

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth a Gogledd Cymru i'w rhoi mewn cysylltiad â'r Cyngor Cymuned, ac wrth wneud hynny, diolchodd i'r deisebydd a chaeodd y ddeiseb.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 5 y cyfarfod.

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Adolygiad o amserlen y Pwyllgor a chylchoedd gwaith y Pwyllgor

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i amserlen bresennol y Pwyllgor a thynnwyd sylw at y ffaith eu bod yn ffafrio symud ymlaen.